

Addewid Ad-dalu Neuadd Dewi Sant

Annwyl Gwsmer,

Rydym yn llawn sylweddoli nad ydi pawb, tristâ'r sôn, yn gallu dod i bob digwyddiad maen nhw'n codi tocynnau iddo. Mae arnom eisiau i chi fod yn dawel eich meddwl, er nad ydi ein haddewid **ddim** yn cwmpasu pob amgylchiad. Ein haddewid ydi y rhown ni ad-daliad i **chi** am unrhyw **archeb** heb ei ddefnyddio os ydych **chi** yn methu dod i'r **digwyddiad wedi'i archebu** oherwydd unrhyw un o'r amgylchiadau a restrir isod.

Gwasanaeth dros ben ydi'r addewid gynigiwn ni ac mae'n gyfan gwbl yn ôl eich dewis. Addewid ydi hwn y rhown ni ad-daliad i **chi** o dan rai amgylchiadau cyfyngedig os talwch ffi dros ben yn ogystal â'ch ffi codi tocyn.

Nid yswiriant mo'r Addewid Ad-dalu a dydi'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol ddim yn ymorol amdano chwaith.

Gweinyddir yr addewid yma gan TicketPlan ar ein rhan ni. Cyfeiriwch unrhyw gwestiynau sydd gennych ynghylch yr addewid yma neu unrhyw ad-daliad at yn nhw yn y cyfeiriad isod. Rhoddir diffiniadau ar ddiwedd y ddogfen yma.

A bwrw bod y **digwyddiad wedi'i archebu** heb ddigwydd a chithau'n rhoi rhybudd ar ddu a gwyn i ni o fewn pedwar diwrnod ar ddeg (14) o elwa ar ein Haddewid Ad-dalu, eich bod yn dymuno canslo mantais eich Addewid Ad-dalu, canslir yr addewid yma ac ad-dalir eich ffioedd sydd ynghlwm â'r addewid.

Cofiwch fod rhaid i adroddiadau perthnasol i gyd fod yn Saesneg. Allwn ni ddim delio ag unrhyw iaith arall.

Mae ein haddewid yn atebol i gyfraith Lloegr.

Ein Haddewid: Pryd byddwn yn ad-dalu

Ar wahân i'r amodau isod dan y pennawd "Pryd na fyddwn ni ddim yn ad-dalu", byddwn yn ad-dalu cost eich archeb os byddwch **chi yn methu dod i **ddigwyddiad wedi'i archebu** oherwydd:**

- tarfu annisgwyl ar y **rhwydwaith cludiant cyhoeddus** na allasid yn rhesymol wybod amdano cyn dyddiad neu amser y **digwyddiad wedi'i archebu** cyn belled â'ch bod yn darparu hysbysiad swyddogol gan ddarparu'r y gwasanaeth cludiant os bydd oedi, canslo, methiant mecanyddol neu ddamwain ynghlwm â'r **rhwydwaith cludiant cyhoeddus**;
- marwolaeth, **damwain**, neu **salwch** yn digwydd i **chi**, aelod o'ch **teulu agos** neu unrhyw un neu rai yn y **grŵp** oedd i fod i ddod i'r **digwyddiad wedi'i archebu** gyda **chi**, cyn belled â'ch bod yn darparu **naill ai tystysgrif meddyg** lle bo **eich** cais am ad-daliad am **ddamwain** neu **salwch** sydd heb fod yn **gyflwr meddygol oedd eisoes yn bod**, neu dystysgrif marwolaeth lle bo **eich** cais am ad-daliad am farwolaeth (hwyrach weithiau y bydd gofyn cadarnhad meddygol dros ben ar ôl cyflwyno tystysgrif marwolaeth). O ran marwolaeth aelod agos o'r teulu ni roddir ad-daliad oni bai bod y farwolaeth yn digwydd o fewn pedair wythnos i ddyddiad y **digwyddiad wedi'i archebu** ac ar ôl y dyddiad prynu;
- methiant mecanyddol, damwain, tân neu ddwyn cerbyd preifat ar ei ffordd i fynd â **chi** i'r **digwyddiad wedi'i archebu** cyn belled â'ch bod yn darparu adroddiad gwasanaeth adfer cerbydau (AA, RAC neu eu cyfwerth), copi o fil trwsio garej neu dderbynneb rhannau, neu gadarnhad gan yr yswirwyr cerbydau modur, yr atgyweiriwyr cerbydau neu'r heddlu;
- gwasanaeth rheithgor na wyddech **chi** ddim amdano pan wnaethoch chi'r **archeb** cyn belled â'ch bod yn cyflwyno'r gwahoddiad rheithgor gwreiddiol dyddiedig yn eich gwahodd **chi** i fod yn rheithiwr;
- lladrad neu dân yn **eich** cartref yn yr wyth awr a deugain yn union cyn y **digwyddiad wedi'i archebu** yn galw am bresenoldeb y **gwasanaethau brys** cyn belled â'ch bod, o ran lladrad, yn darparu adroddiad yr heddlu gyda chyfeirnod y drosedd neu, o ran tân, cadarnhad bod y **Gwasanaethau Brys** yno.
- eich gwysio **chi** i ymddangos mewn achos llys yn dyst na chawsoch **chi** hysbysiad ohono pan wnaethoch eich

Ahead of the crowd on ticket protection



archeb cyn belled â'ch bod yn darparu'r wŷs wreiddiol yn gofyn i **chi** ymddangos gerbron y llys;

Ahead of the crowd on ticket protection

- a **chithau** yn aelod o'r lluoedd arfog, yn cael eich anfon dramor a/neu dynnu'n ôl eich seibiant yn annisgwyl na chawsoch **chi** hysbysiad ohono pan wnaethoch eich **archeb** cyn belled â'ch bod yn cyflwyno hysbysiad gwreiddiol canslo seibiant/hysbysiad teithio ar fyr rybudd o ran gwasanaeth milwrol;
- tywydd mawr lle bo Swyddfa'r Tywydd wedi cyhoeddi rhybudd tywydd coch neu lle bo'r Heddlu neu un o asiantaethau eraill y Llywodraeth wedi cyhoeddi rhybudd penodol i beidio â theithio, cyn belled â'ch bod yn darparu printiad neu giplun sgrîn o wefan Swyddfa'r Tywydd/cadarnhad o Rybudd yr Heddlu i apiau tywydd.

Pryd na fyddwn ni ddim yn ad-dalu?

Fyddwn ni **ddim** yn ad-dalu os:

- ydi eich **salwch** neu eich marwolaeth **chi**, aelod o'ch **grŵp chi** neu aelod o'ch **teulu agos** wedi'i achosi gan **gyflwr meddygol oedd eisoes yn bod** neu o ganlyniad iddo;
- caiff y **digwyddiad wedi'i archebu** ei ganslo, ei roi heibio, ei ohirio, ei gwtogi neu ei adleoli gan y trefnydd neu'r hyrwyddwr, ar unrhyw adeg cyn i **ni** brosesu ad-daliad;
- na ddewch **chi** i **ddigwyddiad wedi'i archebu** am reswm heblaw'r rheini sydd yn yr Addewid Ad-dalu yma;
- byddwch **chi'n** methu darparu adroddiad **meddyg** am **ddamwain** neu **salwch**;
- bydd **beichiogrwydd normal** yr unig reswm eich bod **chi'n** methu dod i **ddigwyddiad wedi'i archebu**, ac eithrio beichiogi sy'n digwydd ar ôl y dyddiad prynu a'r dyddiad esgor disgwylidig o fewn pedair wythnos i'r **digwyddiad wedi'i archebu**;
- byddwch **chi'n** methu teithio i **ddigwyddiad wedi'i archebu** oherwydd tarfu ar y **rhwydwaith cludiant cyhoeddus** sy'n gybyddus i'r cyhoedd cyn y **digwyddiad wedi'i archebu**;
- gallwch **chi** adfer unrhyw ran o'r **archeb**;
- yn ein barn resymol **ni**, na wnaethoch **chi** ddim lwfio digon o amser i deithio i **ddigwyddiad wedi'i archebu**;
- byddwch **chi'n** cyflawni gweithred droseddol sy'n rhwystro i **chi** ddod i **ddigwyddiad wedi'i archebu**;
- gwnewch **chi** gais ffug neu dwyllodrus am ad-daliad neu ategu cais am ad-daliad drwy ddogfen, dyfais neu ddatganiad ffug neu dwyllodrus;
- ydi'r canslo o ganlyniad i fethiant corfforol neu ariannol cludiant awywr neu gwmnïau hedfan neu oedi o ganlyniad i gludiant awywr;

Swm yr Ad-daliad

Os cyflawnir yr amodau uchod, byddwn yn ad-dalu i chi bris prynu, gan gynnwys unrhyw ffi archebu, y **digwyddiad wedi'i archebu**.

Fydd ein had-daliad **ddim** yn cynnwys treuliau teithio na threuliau eraill cysylltiedig (oni bai bod y treuliau teithio wedi'u cynnwys yn rhan o gyfanswm y pris prynu, ac os felly byddwn yn ad-dalu swm y costau hynny sydd wedi'u cynnwys felly).

Fyddwn ni ddim yn talu unrhyw gostau yr ewch iddyn nhw yn cyflwyno neu'n darparu tystiolaeth i ategu eich cais am ad-daliad.

Amodau Cyffredinol

Mae'r canlynol yn berthnasol i BOB cais am ad-daliad:

- a) rhaid i **chi** wneud yr holl drefniadau angenrheidiol er mwyn cyrraedd y digwyddiad mewn da bryd a bod yn barod i brofi hynny;
- b) rhaid i **chi** ymorol am bopeth rhesymol i rwystro neu leihau unrhyw gais am ad-daliad neu'r swm i'w ad-dalu.

Gofyn am Ad-daliad Gennym

Rhaid i **chi** naill ai fynd i www.ticketplangroup.com/refund-application-form a llenwi ffurflen gais am ad-daliad ar-lein, neu sgrifennu atom **ni** yn **TicketPlan Limited, Evolution House, New Garrison Rd, Southend-on-Sea, UK, SS3 9BF** i ofyn am ffurflen gais am ad-daliad cyn gynted â'i bod yn rhesymol bosib ar ôl dod i wybod am amgylchiadau allai eich arwain **chi** at ofyn am ad-daliad.

Fe ellid gofyn i **chi** ar eich cost eich hun ddarparu'r canlynol:

- y **tocynnau** a'r talebau gwreiddiol heb eu defnyddio ar gyfer pob rhan o'r **archeb** – fydd yna **ddim** ad-daliad oni bai eich bod **chi'n** dychwelyd unrhyw **docynnau** neu dalebau heb eu defnyddio sy'n rhan o'r **archeb**, **neu dystiolaeth arall o docynnau heb eu defnyddio**;
- tystiolaeth arall fel y'i datganir uchod; ac
- unrhyw dystiolaeth resymol dros ben y gallem **ni** ofyn amdani.

Diogelu Data a Hysbysiad Preifatrwydd

Byddwn yn defnyddio eich data personol yn unol â deddfau diogelu data perthnasol a'n polisi preifatrwydd, y mae copi ohono i'w gael ar ein gwefan neu y gellir gofyn amdano o gysylltu â ni.

Rhannir y Data Personol a ddarparwch pan godwch chi'r Addewid Ad-dalu â TicketPlan Limited. Os gwnewch hawliad o dan yr Addewid Ad-dalu bydd gofyn i chi roi data personol dros ben i TicketPlan Limited. Bydd TicketPlan Limited yn defnyddio eich data personol at ddiben gweinyddu eich hawliad o dan yr Addewid Ad-dalu yn unol â deddfau diogelu data perthnasol a'i bolisi preifatrwydd, y mae copi ohono i'w weld yn www.ticketplangroup.com/privacy-policy.

Diffiniadau

Mae i'r geiriau neu'r ymadroddion canlynol yr ystyr a ddangosir isod lle bynnag maen nhw i'w gweld yn **wynebdu** yn y ddogfen yma.

damwain	Anaf corfforol a gadarnheir gan feddyg sy'n eich rhwystro chi rhag dod i'r digwyddiad wedi'i archebu .
archeb/digwyddiad wedi'i archebu	Y gwasanaeth(au) / digwyddiad(au) / tocyn(nau) wedi'u cynllunio a'u harchebu ymlaen llaw a drafodwyd â ni gennych chi .
meddyg	Meddyg cymwys, cofrestredig â chorff proffesiynol cydnabyddedig. Chaiff meddyg ddim bod nag yn chi'ch hun nag yn aelod o'ch teulu agos chi .
gwasanaethau brys	Yr Heddlu, y Gwasanaeth Tân ac Achub neu'r Gwasanaethau Meddygol Brys.
grŵp	Unrhyw nifer o bobl wnaeth archeb gyda'r gwerthwr tocynnau gyda Diogelwch Ad-dalu Archebion yn yr un pryniant.
salwch	Cyflwr corfforol neu feddyliol a gadarnheir gan feddyg sy'n eich rhwystro chi rhag dod i'r digwyddiad wedi'i archebu .
teulu agos	Eich gŵr, gwraig, partner, partner sifil, rhiant, plentyn, nain neu daid, ŵyr neu wyres, brawd neu chwaer.
beichiogrwydd normal	Symptomau sydd fel arfer yn dod ynghlwm â beichiogrwydd (gan gynnwys beichiogrwydd lluosog) ac sydd fel arfer heb fod yn ddifrifol a/neu dros dro (e.e. salwch bore, lludded etc.) sydd heb fod yn beryg meddygol i'r fam na'r babi.

cyflwr meddygol sydd eisoes yn bod	Unrhyw glefyd, salwch neu anaf (pa un a'i diagnosiwyd ai peidio) oedd yn bod ar adeg gwneud yr arceb neu ynghynt ac y ceisiwyd ar ei gyfer gyngor meddygol neu driniaeth yn y deuddeng mis cyn dyddiad yr arceb .
rhwydwaith cludiant cyhoeddus	Unrhyw ddull o gludiant cyhoeddus ar wahân i dacsis hur cyhoeddus wedi'i drwyddedu at ddefnydd y cyhoedd roedd y cwsmer yn cynllunio i deithio arno i ddigwyddiad wedi'i archebu .
tocyn(nau)	Tocyn awdurdodedig sydd heb ad-dalu arno a godwyd gan werthwr tocynnau cydnabyddedig a dibynadwy lle prynwyd Diogelwch Ad-dalu Archebion ar yr un pryd â chodi'r tocyn(nau) .
ni/ein	Y gwerthwr tocynnau y gwnaethoch yr archeb ag ef.
chi/eich/eich hun	Rhywun wnaeth arceb ar ei ben ei hun neu'n rhan o grŵp gyda ni .